# Protocol Bioddiogelwch



Tŷ Hodge, Plas y Neuadd, Caerdydd,
Cymru, CF10 1DY

# Protocol Bioddiogelwch

Cynnwys

1. Meysydd Allweddol i'w Hystyried
2. Gofynion Cyn Ymweliad
3. Protocolau Bioddiogelwch ar y Safle
   - i. Dillad ac Offer
   - ii. Gweithdrefnau Diheintio
   - iii. Yn ystod Arolygon
   - iv. Protocolau ar ôl Ymweliad

Dogfen wedi'i hadolygu ddiwethaf – Awst 2025

Atodiad
Clefydau Hysbysadwy o Bwysigrwydd
y DU Gorffennaf 2025
   - Gwartheg
   - Defaid
   - Moch
   - Dofednod

Tŷ Hodge, Plas y Neuadd, Caerdydd,
Cymru, CF10 1DY

# Protocol Bioddiogelwch

## 1. Meysydd Allweddol i'w Hystyried

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r clefydau posibl a'r risgiau bioddiogelwch a'r risgiau cysylltiedig a nodir isod.

| Math o Risg | Enghreifftiau |
|---|---|
| Trosglwyddo Clefydau Da Byw | TB mewn gwartheg, ffliw adar, traed a genau, tafod glas, twymyn moch (gweler yr atodiad) |
| Trosglwyddo Clefydau Sonotig | Salmonela, cryptosporidiwm, campylobacter, llyngyr, E. coli |
| Pathogenau a Gludir yn y Pridd | Phytophthora ramorum |
| Halogiad Porthiant a Dŵr | Trwy offer, cerbydau neu esgidiau |
| Straen neu Anaf i Dda Byw | Sŵn, defnyddio dronau, agosrwydd dynol |
| Tarfu ar safonau sicrwydd | Torri statws Tractor Coch neu gynlluniau sicrwydd penodol neu gynlluniau cymorth fferm |

**2. Gofynion Cyn Ymweliad**

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r disgwyliadau safonol ar gyfer arolygon a mynediad sy'n cael eu cynnal ar brosiectau Green GEN Cymru.

**Ystyriaethau gyda'r Tirfeddiannwr Cyn Mynediad**

- A yw'r fferm o fewn ardal gyfyngedig TB? Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â symud gwartheg a da byw yr effeithir arnynt gan TB ond mae hefyd yn newid gofynion diheintio.

# Protocol Bioddiogelwch

- Mae Cymru wedi'i rhannu'n ardaloedd risg isel, canolig ac uchel, a dylem geisio pennu lefel y risg cyn mynychu'r fferm, ac a oes angen unrhyw fesurau ychwanegol ar y tirfeddiannwr heblaw'r rhai a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae modd dod o hyd i'r ardaloedd yma: https://www.llyw.cymru/map-rhanbarthau-tb-cymru

- A yw'r fferm o dan unrhyw fath o gynllun gwarant fferm neu gynllun amgen. Byddwch yn glir ynghylch unrhyw fesurau bioddiogelwch sy'n ofynnol o dan y fframweithiau hyn.
- Dylid ystyried y math o ffermio sy'n digwydd ar y fferm o safbwynt bioddiogelwch ac iechyd a diogelwch cyffredinol.
- A oes gan y fferm unrhyw barthau bioddiogelwch? Pwyntiau diheintio? Gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar symud. Lle bo modd, byddwch yn glir ynghylch gofynion y dosbarthiadau hyn, ac a oes angen cymryd camau pellach cyn mynychu'r safle.

**Protocol Cyn Arolygu Tir ac Eiddo**

Dylid ystyried cynllunio risg a llwybrau, er mwyn nodi ac osgoi ardaloedd risg uchel lle bo modd (y ffordd hawsaf o gwblhau hyn yw trwy gyfathrebu gweithredol â pherchennog y tir a'r eiddo lle bo modd).

Ystyriwch osgoi'r ardaloedd canlynol oni bai bod angen ar gyfer arolygon:

- Mannau trin da byw gan gynnwys siediau, gwasgfeydd a pharlyrau godro
- Storfeydd silwair, gwair neu borthiant.
- Mannau storio slyri a thomenni tail.
- Siediau dofednod neu unedau moch (yn enwedig yn ystod achosion o ffliw adar neu ffliw/twymyn moch). Er mwyn lleihau unrhyw aflonyddwch i dda byw, ceisiwch ddeall pa weithgareddau sy'n cael eu gwneud ymhle ar y fferm, er enghraifft:
    - Caeau a Siediau gydag ŵyna, lloia a pherchella gweithredol
    - Amseroedd godro
    - Profion TB

Efallai na fydd y trefniadau mynediad manwl hyn (a dealltwriaeth o weithgareddau) yn bosibl yng nghyd-destun mynediad o dan Adran 172 a thirfeddiannwr yn gwrthod ymgysylltu, fodd bynnag, dylai'r rhai sy'n cael mynediad i'r tir gwblhau gwiriadau desg rhesymol cyn mynychu'r safle, yn ogystal â cheisio trafod y rhai a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

GREEN GEN CYMRU

# Protocol Bioddiogelwch

### 3. Protocolau Bioddiogelwch ar y Safle

i. Dillad ac Offer

| **Eitem** | **Gofyniad** |
|---|---|
| Dillad | Dillad glân. Addas ar gyfer y tywydd. |
| Esgidiau | Esgidiau welington wedi'u diheintio, neu esgidiau addas nad ydynt yn athraidd. Dim sandalau, esgidiau hyfforddi nac esgidiau agored. |
| Cyfarpar ac Offer | Rhaid glanhau a diheintio offer arolygu neu amgylcheddol rhwng safleoedd ac yn ôl yr angen rhwng ardaloedd ar yr un safle. |
| Cerbydau | Parciwch mewn mannau parcio dynodedig, yn ddelfrydol y tu allan i'r prif iard neu'r adeiladau fel y'u nodwyd cyn yr ymweliad ac a gytunwyd gyda pherchnogion tir lle bo modd. Os yw'r arolwg yn gofyn am fynediad i fuarth y fferm, mae'n well ymgysylltu â'r tirfeddiannwr ymlaen llaw lle bo modd.<br><br>Dylai cerbydau fod yn rhesymol o lân, a theiars wedi'u diheintio. Dylid cymryd gofal i ddiheintio cerbydau ar ôl gadael hefyd. |

**ii. Gweithdrefnau Diheintio**
Rhaid i'r rhai sy'n mynd i ffermydd neu dir gario diheintydd wedi'i gymeradwyo gan DEFRA, naill ai wedi'i wneud i'r gwanhad cywir neu wedi'i grynhoi â dŵr i'w wanhau yn ôl yr angen.

| **Diheintydd** | **Gwanhau** | **Defnyddiau** |
|---|---|---|
| FAM 30 | 1:49 | Gorchmynion Cyffredinol |
| FAM 30 | 1:14 | Gorchmynion Twbercwlosis |
| Virkon LSP | 1:30 | Gorchmynion Cyffredinol |
| Virkon LSP | 1:10 | Gorchmynion Twbercwlosis |
| Agrichlor | 1:360 | Gorchmynion Cyffredinol |
| Agrichlor | 1:12 | Gorchmynion Twbercwlosis |

Defnyddiau a gwanhadau'n gywir ar 30/07/2025.

Cyfeiriwch at https://disinfectants.defra.gov.uk/ i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn awdurdodiadau.

- Dylid defnyddio PPE addas (menig ac amddiffyniad llygaid) wrth gymysgu a thrin diheintyddion.
- Ni ddylid gwaredu diheintyddion i lawr draeniau gan eu bod mewn perygl o fynd i mewn i systemau dŵr. Yn lle hynny, arllwyswch nhw dros bridd neu dywod i sicrhau eu bod yn gwasgaru'n araf. Gwiriwch awdurdodiadau marchnata penodol i gael rhagor o wybodaeth am waredu diheintyddion penodol yn ddiogel.

Ar gyfer ffermydd sy'n rhydd o glefydau hysbysadwy, gellir defnyddio gwanhadau gorchmynion cyffredinol. Mae gwanhadau gorchmynion cyffredinol ar gyfer y cynhyrchion hyn, ar adeg ysgrifennu, yn ddigonol ar gyfer clefydau fesigwlaidd moch, clwy'r traed a'r genau a ffliw adar. Wrth ymweld â ffermydd o dan gyfyngiadau TB gwartheg, dylid defnyddio'r gwanhad uwch ar gyfer twbercwlosis. Ar hyn o bryd, oherwydd cyfyngiadau TB hysbys ar sawl llwybr a'r wybodaeth gyfyngedig sy'n benodol i'r fferm sydd wedi'i darparu, rhaid defnyddio'r gwanhad twbercwlosis uwch ar gyfer pob ymweliad, ond bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

# Protocol Bioddiogelwch

Cyn diheintio dylid cael gwared ar yr holl fater organig gweladwy gan gynnwys cymryd gofal i gael gwared ar yr holl fater oddi ar wadnau esgidiau. Dylid rhoi diheintydd gwanedig ar yr holl esgidiau allanol na ellir eu taflu. Ni ddylid rinsio'r cynhyrchion i ffwrdd nes bod yr amseroedd cyswllt gofynnol hyn wedi'u cyflawni. Yn unol â chyfarwyddiadau'r defnyddiwr.

Dylid defnyddio matiau diheintio a/neu faddonau traed ar y fferm yn ogystal â mesurau diheintio personol lle darperir a lle cyfarwyddir hynny.

***Yn ystod Arolygon***

Anelwch at gyflawni:

- Lle bo angen (ac os yw'n berthnasol) - mewngofnodwch i gofnod ymwelwyr y fferm
- Cadwch at y traciau a'r llwybrau (er efallai na fydd hynny'n bosibl ar gyfer rhai arolygon)
- Dilynwch unrhyw reolau bioddiogelwch ac arwyddion sy'n benodol i'r fferm neu'r tir
- Osgowch fynd i mewn i adeiladau neu dai anifeiliaid oni bai bod gennych ganiatâd penodol i wneud hynny
- Cadwch bellter diogel oddi wrth anifeiliaid fferm
- Adroddwch am unrhyw arwyddion anarferol (salwch, da byw marw) i'r tirfeddiannwr neu'r deiliad
- Os bydd argyfwng bioddiogelwch, dylem atal yr arolwg a hysbysu'r perchennog neu'r deiliad (neu reolwr y fferm) ynghyd ag Asiant Tir GGC.

**Osgowch:**

- Mynd i mewn i ardaloedd (ardaloedd penodol) gyda da byw heintiedig neu rhai sydd wedi'u trin yn ddiweddar. Dylem weithio gyda thirfeddianwyr a deiliaid i sicrhau (lle bo'n ymarferol), bod da byw yn y categorïau hyn yn cael eu symud.
- Bwyta neu yfed ger tai anifeiliaid neu ger da byw.
- Achosi gofid i dda byw trwy ein gweithredoedd

***Protocolau ar ôl Ymweliad***

*Dylid cwblhau'r canlynol cyn gadael y safle:*

- Diheintiwch yr holl esgidiau
- Cofnodwch yr ymweliad gan gynnwys yr ardaloedd yr aethpwyd iddynt ac unrhyw bryderon neu faterion bioddiogelwch.
- Hysbyswch y tirfeddiannwr am unrhyw bryderon bioddiogelwch neu iechyd anifeiliaid

# Protocol Bioddiogelwch

Mae'r syrfewyr sy'n cynnal arolygon ac yn cymryd mynediad wedi cael eu briffio ar ofynion y protocol hwn. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch glynu wrth a mabwysiadu'r safonau hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu codi cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r manylion isod:
info@greengencymru.com

Cofiwch gynnwys manylion eich eiddo a'ch pryderon penodol mewn perthynas ag ymddygiadau syrfewyr yn erbyn y gofynion yn y ddogfen hon.

# Protocol Bioddiogelwch

***Atodiad***

Clefydau Hysbysadwy o Bwysigrwydd y DU Gorffennaf 2025
Mae gwybodaeth lawn i'w chael yn:
https://www.gov.uk/government/collections/notifiable-diseases-in-animals

**Gwartheg**

| | |
|---|---|
| Anthracs | Marwolaeth sydyn, twymyn, colli llaeth, colig |
| Tafod Glas | Llesgedd, erydiadau cramennog o amgylch ffroenau/trwyn, llygaid /ceg/trwyn coch, band coronaidd coch, cochni ac erydiadau ar y tethi, twymyn, diffyg llaeth, ddim yn bwyta, erthyliad |
| BSE | Ymddygiad wedi newid/pryder/nerfusrwydd/ymosodol, ymatebion dros ben llestri, cerddediad gwan/camu uchel, amharodrwydd i ganiatáu godro, llyfu'r trwyn yn ormodol |

# Protocol Bioddiogelwch

**Gwartheg**

| | |
|---|---|
| Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) | Briwiau/pothelli ar y traed (rhwng crafangau ac wrth y band coronaidd), yn y geg ac ar y tafod, twymyn, ddim yn bwyta, cloffni, glafoerio, cynnyrch llaeth is |
| Clefyd Croen Lwmpiog | Twymyn, diffyg llaeth, un neu fwy o nodylau caled ar y croen/trwyn/ceg, nodau lymff chwyddedig, pwrs/ceilliau chwyddedig, marwolaeth |
| Pryfed Warble | Chwyddiadau meddal, poenus ar y cefn (tua 3mm o led) |

GREEN GEN CYMRU

# Protocol Bioddiogelwch

**Defaid**

| | |
|---|---|
| Tafod Glas | Wlserau neu ddoluriau yn y geg a'r trwyn, diferu o'r llygaid/trwyn a glafoerio o'r geg, chwydd y gwefusau, y tafod, y pen a'r gwddf a'r band coronaidd, twymyn, cloffni, problemau anadlu, erthyliad, marwolaeth |
| Agalactia heintus | Colli pwysau, cymalau chwyddedig, erthyliad, llaeth melyn/wedi'i wahanu, pwrs crebachlyd/chwyddedig cynnyrch llaeth is, llygaid chwyddedig/heintiedig, twymyn |
| Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) | Cloffni difrifol (gall effeithio ar lawer o anifeiliaid), mwy o orwedd, amharodrwydd i symud, erthyliadau, genedigaeth farw ac ŵyn gwan, amharodrwydd i adael i ŵyn sugno, pothelli ar y traed (ac yn anaml yn y geg) |
| Clefyd y Crafu | Cyffrous, nerfus neu ymosodol, crynu, llusgo ar ôl yr haid, cerddediad camu'n uchel, diffyg cydlyniad/coesau ôl gwan, llid y croen |
| Brech y Defaid/Geifr | Twymyn, smotiau coch/pothelli ar y croen, nodau lymff chwyddedig, iselder, amrannau chwyddedig, anawsterau anadlu, marwolaeth |
| Clafr Defaid (Dim ond yn hysbysadwy yn yr Alban) | Rhwbio, crafu neu gnoi y cnu |

# Protocol Bioddiogelwch

**Moch**

| | |
|---|---|
| Twymyn y Moch Affricanaidd (ASF) | Twymyn, llai o archwaeth, difaterwch, marwolaeth sydyn, dolur rhydd, erthyliad, croen coch, gwan |
| Twymyn Moch Clasurol (CSF) | Twymyn, llai o archwaeth, difaterwch, marwolaeth sydyn, dolur rhydd, erthyliad, croen coch, gwan |
| Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) | Cloffni (gall effeithio ar lawer o anifeiliaid), sgrechian poenus, amharodrwydd i symud/bwydo, pothelli ar y traed (yn y gyffordd rhwng y croen a'r corn) a/neu drwyn a/neu dafod |
| Clefyd Fesigwlaidd Moch | Pothelli ar y traed (pen y carnau neu rhwng bysedd traed), weithiau ar y trwyn, y tafod a'r gwefusau, cloffni, llai o archwaeth, twymyn |

Tŷ Hodge, Plas y Neuadd, Caerdydd,
Cymru, CF10 1DY

# Protocol Bioddiogelwch

**Dofednod**

| | |
|---|---|
| Ffliw Adar | Marwolaeth sydyn, pen chwyddedig, llygaid caeedig a rhedegog, diffyg egni ac iselder gorwedd i lawr a diffyg ymateb, diffyg cydlyniad anorecsia, adenydd yn plygu neu goesau'r llusgo. |
| Clefyd Newcastle | Anhawster anadlu (pig agored, pesychu, tisian, cecian, clecian), arwyddion nerfus (cryndod, parlys, troelli'r gwddf) carthion anarferol o ddyfrllyd, iselder, diffyg archwaeth. |